Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? [Darllenwch ef yn eich porwr.](#)

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




Rhifyn 297 (Cymru) - 31 Mawrth 2021

### Etholiadau mis Mai 2021: diweddariad o ran ein canllawiau

Mae deddfwriaeth bellach mewn grym i alluogi etholwyr sy'n hunanynysu ac yn methu â phleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio o ganlyniad i gyngor gan y llywodraeth neu ymarferydd meddygol i wneud cais i bleidleisio trwy ddirprwy brys, hyd at 5pm ar y diwrnod pleidleisio.

Rydym wedi cwblhau'r newidiadau angenrheidiol i'n canllawiau ac adnoddau ar gyfer etholiadau mis Mai 2021 i adlewyrchu'r darpariaethau hyn, ac fe wnaethom gyhoeddi'r fersiynau diweddaredig ar ein gwefan yr wythnos ddiwethaf.

Gellir dod o hyd i'r diweddariadau yn Rhan D ein canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau, ac cheir manylion amdanynt yn y cofnod newidiadau ar ddechrau'r ddogfen. Rydym hefyd wedi diweddaru ein templedi briffiadau ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio a'r rheiny ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid, yn ogystal â'n Cwestiynau Cyffredin i staff rheng flaen.

Mae ein canllawiau i Swyddogion Canlyniadau ar brosesu ceisiadau dirprwyon, sydd heb newid, yn parhau i fod ar gael [fan hyn](#).

Byddwn yn cadarnhau pryd bydd y ffurflenni cais am ddirprwyon brys ar gael ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mewn Bwletin yn y dyfodol. Mae [ffurflen](#) y gellir ei defnyddio ar gyfer is-etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru eisoes ar gael.

### Etholiadau Mai 2021: diweddariad ynghylch enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

Yn unol â'n dull ar gyfer darparu diweddariadau ynghylch newidiadau i enwau, disgrifiadau neu arwyddluniau pleidiau a nodwyd ym [Mwletin 295](#), isod ceir crynodeb o'r diweddariadau rydym wedi eu gwneud ers [Bwletin 296](#).

Fel y gwelwch, cafwyd nifer o newidiadau yn ddiweddar i'r gofrestr, ac er na fydd pob un yn berthnasol i ymgeiswyr sy'n sefyll yn eich

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Etholiadau mis Mai 2021: diweddariad o ran ein canllawiau**

Gwybodaeth am ddiweddariadau i ganllawiau i adlewyrchu darpariaethau newydd o ran dirprwyon brys.

**Etholiadau Mai 2021: diweddariad ynghylch enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau**

Diweddariad ynghylch newidiadau diweddar i'r gofrestr o bleidiau gwleidyddol.

**Etholiadau mis Mai 2021: canllawiau diogelwch**

Gwybodaeth am ganllawiau diogelwch a gyhoeddwyd ar gov.uk, a dolen atynt.

**Etholiadau mis Mai 2021: Adnoddau Dy Bleidlais Di a Neb Arall - adnoddau ar gael**

Gwybodaeth am yr adnoddau i godi ymwybyddiaeth am dwyll etholiadol a'i atal, a dolen atynt.

**Data twyll etholiadol 2020**

Gwybodaeth am ddata honiadau twyll etholiadol yn 2020, a dolen ati.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru**

ardal, mae'n bwysig eich bod yn darllen y rhestr o ddiweddariadau i bleidiau yn ofalus i sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a allai effeithio ar y rheiny sy'n sefyll yn eich ardal:

- Psychedelic Movement
- Y Blaid Geidwadol ac Unoliaethol

Ni chafodd unrhyw bleidiau eu dadgofrestru ers y Bwletin diwethaf.

Gallwch weld manylion llawn y diwygiadau a wnaed yn ein rhestr o benderfyniadau i gymeradwyo neu wrthod enwau, disgrifiadau neu arwyddluniau pleidiau y gwnaed cais amdanynt. Ar ein gwefan gallwch hefyd ddod o hyd i restr o geisiadau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd.

**Wrth dderbyn enwebiadau, rhaid i Swyddogion Canlyniadau wirio bod enw'r blaid neu unrhyw ddisgrifiad a roddir ar y ffurflen enwebu, yn ogystal â'r arwyddlun y gwneir cais amdano, wedi eu cofrestru ar gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol** a bod y manylion a ddarparwyd yn cyfateb i'r rheiny a gofrestrwyd. I sicrhau eich bod yn gweld y wybodaeth ddiweddaraf, efallai y bydd angen i chi ddileu eich hanes pori neu adnewyddu'r dudalen. Os nad ydych yn sicr sut mae gwneud hyn, dylai eich tîm TG allu eich cynorthwyo.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cofrestrau, cysylltwch â ni.

## Etholiadau mis Mai 2021: canllawiau diogelwch

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cadarnhau cyhoeddi cyfres o ganllawiau diogelwch ar gov.uk sy'n darparu cyngor ac arferion diogelwch da i ymgeiswyr a Swyddogion Canlyniadau.

Er bod y canllawiau ar gael i chi eu hystyried yng nghyd-destun etholiadau mis Mai 2021, bydd llawer o'r cyngor yn berthnasol drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal â chefnogi eich gwaith chi eich hunain, efallai y byddwch yn ei chael hi'n ddefnyddiol tynnu sylw y rhai sy'n sefyll etholiad yn eich ardal at y deunyddiau a fwriadwyd at ymgeiswyr.

## Etholiadau mis Mai 2021: Adnoddau Dy Bleidlais Di a Neb Arall - adnoddau ar gael

Fel rhan o'n hymgyrch 'Dy Bleidlais Di a Neb Arall', yr ydym yn ei chyflawni mewn partneriaeth â Crimestoppers i godi ymwybyddiaeth am dwyll etholiadol a'i atal, rydym wedi cyhoeddi cyfres o adnoddau.

Mae'r adnoddau, sy'n cwmpasu pleidleisio trwy'r post a phleidleisio mewn gorsaf bleidleisio, yn amlygu'r hyn yw twyll etholiadol, gan fwriadu galluogi pobl i warchod eu pleidlais ac adrodd i Crimestoppers am unrhyw bryderon.

Mae'r adnoddau ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan, ac maent yn cynnwys:

- fideos
- posteri
- taflenni

**Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael fan hyn. .Gallwch hefyd danysgrifio i'n Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**

- baneri ar-lein
- templedi negeseuon a graffigau cyfryngau cymdeithasol

Mae’r posteri a’r taflenni hefyd ar gael ym Mhwnjabeg, Wrdw, a Bengaleg.

## Data twyll etholiadol 2020

Bob blwyddyn mae heddluoedd ledled y DU yn anfon data atom ynghylch honiadau twyll etholiadol, a heddiw fe wnaethom gyhoeddi data am honiadau twyll etholiadol yn 2020.

Mae ein crynodeb yn dangos bod yr heddlu wedi ymchwilio i 15 o achosion o honiadau twyll etholiadol yn 2020. O’r rhain, ni fu camau pellach yng nghyswllt 12 ohonynt, neu fe gawsant eu datrys yn lleol gan yr heddlu. Yr ydys yn dal i ymchwilio i 3 ohonynt.

Ychydig iawn o etholiadau a gafodd eu cynnal yn 2020, a oedd yn golygu bod nifer y cyhuddiadau a adroddwyd i heddluoedd yn arbennig o isel. Gan nad oedd hon yn flwyddyn normal ar gyfer etholiadau yn y DU, ni ellir cymharu’r data hwn â’r data a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol neu ddata’r blynyddoedd i ddod mewn unrhyw ffordd ystyrlon.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2021